THOMAS, ALFRED, barwn Pontypridd (1840 - 1927), o Fronwydd, Caerdydd

Enw: Alfred Thomas
Dyddiad geni: 1840
Dyddiad marw: 1927
Rhiant: Daniel Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barwn Pontypridd
Cartref: Fronwydd
Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Benjamin George Owens

Ganwyd 16 Medi 1840, yn Llwyn-y-grant, Pen-y-lan, Caerdydd, yn fab i Daniel Thomas, ymgymerwr. Addysgwyd ef yn ysgol Weston, ger Bath, a threuliodd ei oes ym musnes ei dad. Daeth yn r amlwg mewn llawer o gylchoedd cyhoeddus. Bu'n aelod o gyngor dinas Caerdydd am 11 mlynedd o 1875 ymlaen ac yn faer yn 1881-2. Bu'n aelod seneddol dros etholaeth newydd dwyrain Morgannwg o 1885 hyd ei ymddiswyddiad yn 1910. Yr oedd hefyd yn ustus heddwch dros Gaerdydd a Morgannwg, ac yn ddirprwy-raglaw Morgannwg. Rhoes gefnogaeth frwd i'r Coleg Prifysgol a godwyd yng Nghaerdydd yn 1882 a bu'n aelod o'r cyngor ac yn llywydd. Ef hefyd oedd llywydd cyntaf Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Bedyddiwr ydoedd o ran crefydd, ac etholwyd ef yn llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1886. Gwnaed ef yn farchog yn 1902, ac yn farwn yn 1912. Bu farw yn ddi-briod 14 Rhagfyr 1927.

Awdur

Benjamin George Owens

Ffynonellau

Who's who in Wales, 1921

South Wales Daily News, 15 Rhagfyr 1927

The Daily Telegraph, 15 Rhagfyr 1927

Western Mail, 25 Mehefin 1930

Seren Cymru, 23 Rhagfyr 1927

Seren Gomer, 1928, 40

Adroddiad Undeb Bedyddwyr Cymru, 1886

Darllen Pellach

Archifau LlGC: General Election 1906 Wales and Monmouthshire. A Souvenir containing photographs, biographical sketches etc., of all the Welsh MP's: Sir Alfred Thomas

Erthygl Wicipedia: Alfred Thomas

Delweddau

National Portrait Gallery: Alfred Thomas, 1st Baron Pontypridd

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q4723516

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu